

SIMON, BEN (c. 1703 - 1793),

Enw: Ben Simon

Dyddiad geni: c. 1703

Dyddiad marw: 1793

Rhyw: Gwryw

Maes gweithgaredd: Barddoniaeth

Awdur: Garfield Hopkin Hughes

Abergwilli, Sir Gaerfyrddin. Cofnodir claddu ' Benjamin Simon, a Pauper,' yn Abergwilli, 1 Mawrth 1793, ac y mae gan ' Iolo Morganwg ' yn ei ' Agricultural Observations,' 1795 ([NLW MS 13115B](#) , sef Llanover MS. C.28), ddarlun cofiadwy o'r hen wr yn ei dloidi. Dywed 'Iolo' ei fod yn 90 oed pan fu farw, ac mai fel rhwymwr llyfrau yr enillai ei fywoliaeth. Y mae traddodiad arall mai crydd oedd. Dengys ei farwnad i Griffith Jones, Llanddowror, fod dylanwad hwnnw a'i ysgolion yn fawr iawn arno, fel ar eraill o'i genhedaeth, megis ' Ioan Siencyn ' o Aberteifi. Anghydffurfwr oedd Simon, fel eraill o lenorion a hynafiaethwyr y cyfnod, ac enwir ef yn aelod ym Mhanteg, Sir Gaerfyrddin, Mawrth 1743 (yn y llyfr eglwys, [NLW MS 12362D](#)). Un oedd Ben Simon o'r cylch copiwr y dylanwadwyd arnynt yn fawr gan ' Iaco ab Dewi '. Rhwng 1747 a 1751 y copiodd ei lawysgrif enwocaf, 'Tlysau'r Beirdd' ([NLW MS 5474A](#)), a'i gasgliad adnabyddus o weithiau Dafydd ap Gwilym ([NLW MS 5475A](#)) yn 1754. Y mae eraill o'i lawysgrifau yn Llyfrgell Dinas Caerdydd ac yn Rhydychen. Prynwyd ei lawysgrifau a'i llyfrau gan Thomas Evans ('Tomos Glyn Cothi') yn 1790, a defnyddiwyd rhai ohonynt, ar ôl hynny, gan ' Iolo Morganwg.' Yr oedd cysylltiad agos rhwng ddu a siambr ym 1754. Mae'r dylanwadwyd o'i faledi yw Marwnad ar Farwolaeth ... 17 o Ddnylion yng Waith Glo'r Wern Fraith, ger llaw Castell Nedd yn sir Forgannwg, 1758. Argraffwyd un arall o'i farwnadau fel atodiad i Llawlyfr Ysgrythyrawl, 1756.

Awdur

Garfield Hopkin Hughes, (1912 - 1969)

Ffynonellau

Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, v, 302

Carmarthenshire Miscellany, i, 1892, 100

y farwnad i Griffith Jones yng nghasgliad Thomas Levi, Casgliad o hen farwnadau Cymreig, yn dal cysylltiad a chyfundeb y Methodistiaid a wnaed ar gais y Gymanfa Gyffredinol (Wrecsam 1873), 1873

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Ben Simon](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20732646](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaid Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nosbarwr
Llyfrgell Cymru
Sponsored by
Welsh Government